Miri Mes – Canllaw hanfodol i gasglu mes

Cyflwyniad

Cafodd y canllaw hwn ei baratoi ar gyfer arweinwyr grwpiau addysg ac mae'n esbonio sut i drefnu mynd i gasglu mes.

Drwy dyfu coed cynhenid o had lleol, rydym ni'n sicrhau fod y coed y byddwn ni'n eu plannu'n siwtio i'r amodau lleol ac yn darparu'r budd mwyaf i fywyd gwyllt a choedwigoedd lleol.

I wneud yn siŵr fod digon o gyflenwadau o'r coed cynhenid, lleol hyn, rydym ni'n gofyn i grwpiau addysgol a dysgu fynd i gasglu mes yn eu hardal leol.

Mae casglu mes hefyd yn ffordd wych o fynd â phlant allan i'r awyr agored, eu cyffroi a'u haddysgu am yr amgylchedd, a chodi arian ar gyfer eich lleoliad ar yr un pryd.

Pwy sy'n gallu cymryd rhan?

Mae croeso i grwpiau addysgol ffurfiol ac anffurfiol yng Nghymru sydd ag athro neu berthynas arweinydd / dysgwr neu unrhyw un sy'n codi arian ar gyfer grŵp addysg Cymraeg lleol gymryd rhan.

Er enghraifft, ysgolion, meithrinfeydd, Cylchoedd Meithrin, Ffermwyr Ifanc, Cymdeithasau Rheini ac Athrawon, a'r Sgowtiaid, ac ati.

Dim ond i sefydliad neu grŵp cyfansoddiadol y bydd taliad yn cael ei wneud, ac **nid** i unigolyn.

Er ein bod ni'n croesawu grwpiau cymunedol ac elusennau fydd yn cydweithio gyda grŵp addysg i gymryd rhan a chasglu mes, dim ond i grwpiau addysgol y bydd arian yn cael ei dalu.

Cam 1: Cofrestru cyn cymryd rhan

Dechrau yn y dechrau, dod o hyd i goed addas

Er mwyn cofrestru eich casgliad, bydd angen i chi ddod o hyd i goed addas yn gyntaf – felly ewch allan i archwilio eich amgylchedd lleol i ddod o hyd i goed â llwyth o fes arnynt.

- A oes coed derw ar dir eich lleoliad?
- A oes gan unrhyw un o'ch dysgwyr berthynas â choed derw yn tyfu yn eu gardd, ac a fyddai'n fodlon i chi gasglu'r mes?
- A oes coed ar dir cyhoeddus y gallech chi gasglu ohoni?
- Grŵp o goed derw o'r un rhywogaeth yw'r ffordd orau o gynyddu amrywiad genynnol.
- Weithiau, oherwydd galw prynwyr gyda'r feithrinfa, dim ond un rhywogaeth o fes y gofynnwn amdani felly bydd sgiliau adnabod eich dysgwyr yn arbennig o bwysig - edrychwch ar ein tudalen we Miri Mes i gael mwy o wybodaeth.

Yn ddelfrydol, dylai'r safle fod o fewn pellter cerdded i'ch lleoliad, er mwyn lleihau cost teithio.

I warchod diogelwch eich grŵp, peidiwch â chasglu dim o goed ger ffyrdd prysur neu hen safleoedd diwydiannol.

Cofrestru a chofnodi eich coeden

Mae rheolau a rheoliadau llym yn sicrhau fod modd olrhain tarddiad mes, o'r adeg y maen nhw'n cael eu casglu hyd at eu man tyfu terfynol yn yr amgylchedd naturiol. Y rheswm dros hyn yw sicrhau fod meithrinfeydd coed yn gwybod yn union o ble ddaeth y mes.

Er mwyn cofrestru eich mes yn gyfreithlon byddwn ni'n gofyn i chi lenwi'r 'Ffurflen Gofrestru Miri Mes' a dweud wrthym yn union ble lleolir eich coed.

Cael caniatâd

Eiddo'r tirfeddiannwr yw mes.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth fod gennych ganiatâd ysgrifenedig i gasglu, symud a gwerthu mes gan y tirfeddiannwr, a'i gyflwyno i ni yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Gallai hynny fod yn gopi o lythyr neu e-bost.

Pwy sy'n mynd i helpu a rheoli'r casgliad?

Dylech enwebu rhywun i fod yn brif gyswllt ar gyfer y gwaith casglu. Bydd angen i'r person hwn gysylltu â ni a sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chasglu.

Wedi cael caniatâd? Wedi llenwi eich ffurflen gofrestru? Cysylltwch â ni.

Unwaith y byddwch chi wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr,anfonwch hi atom ni os gwelwch yn dda: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Byddwn ni'n cofrestru eich casgliad ac yn anfon sachau casglu a labeli atoch. Bydd angen i chi ganiatáu cwpwl o ddiwrnodau i'r rhain gael eu cyflenwi.

Os na fyddwch chi'n cofrestru eich casgliad, fydd hi ddim yn bosib i ni dderbyn eich mes na thalu amdanyn nhw.

Cam 2: Cynllunio eich casgliad

Pryd sydd orau i drefnu gwneud casgliad?

Yr adeg orau i gasglu mes yw pan fyddan nhw'n dechrau disgyn. Gall dyddiadau aeddfedu amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac o sir i sir gan gymaint â thair neu bedair wythnos, gan ei gwneud hi'n anodd i ni eich cynghori ynglŷn â dyddiadau penodol.

Mae'r cyfnod casglu delfrydol yn tueddu i fod o ddiwedd mis Medi drwy gydol mis Hydref. Cadwch lygad gwyliadwrus ar eich coed – unwaith y bydd naws oerach yn yr awyr, bydd y mes yn dechrau disgyn. Dylech daflu'r mes cyntaf i gwympo, am na fyddan nhw'n ddigon aeddfed – mae'r rhain yn aml yn disgyn dan rym gwyntoedd cyntaf yr hydref. Bydd y prif gwymp yn digwydd tua phythefnos yn ddiweddarach.

Dylid dechrau cynaeafu cyn gynted â phosib ar ôl y cwymp mawr, am y bydd y mes yn dechrau dirywio a phydru'n gyflym.

Sicrhau digon o gymorth

Gallech gasglu mes fel rhan o wers ysgol, neu er enghraifft yn ystod cyfarfod o grŵp Brownies. Y naill ffordd neu'r llall, cofiwch y dywediad: 'mwya'r gweithwyr, lleia'r dasg' – gwnewch yn siŵr fod eich grŵp yn ymwybodol pryd y bydd y gwaith casglu'n digwydd er mwyn i bawb allu cymryd rhan.

Yswiriant

P'un ai a ydych chi'n casglu ar dir preifat neu dir cyhoeddus, ystyriwch a oes yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gael i ddiogelu'r grŵp, pe bai rhywun yn cael anaf?

Eisiau ychwanegu gwerth addysg at eich sesiwn?

Mae gennym ystod o weithgareddau a gemau rhyngweithiol, a gysylltwyd â'r cwricwlwm, sy'n canolbwyntio ar goed a choedwigoedd. Beth am gynnal rhai ohonynt gyda'ch grŵp i roi cyd-destun i'ch sesiwn ac i ehangu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eich dysgwyr o'r adnoddau naturiol hyn? Gweler adran 'Coed a Choedwigoedd' ein tudalen we.

Cam 3: Ar eich diwrnod casglu

Asesiad risg

Gwnewch yn siŵr bod asesiadau risg o'r safle a'r gweithgaredd wedi'u cwblhau, a bod pawb yn ymwybodol o'u cynnwys. Ystyriwch iechyd a lles eich grŵp.

Adnoddau casglu mes

Hanfodol	Dewisol
Tybiau casglu - e.e. hen dybiau hufen iâ, potiau iogwrt. Gwell cael nifer o dybiau symudol yn dod yn ôl ac ymlaen i bot canolog i arllwys y mes sydd wedi'u casglu i brif sach yn hytrach na gorfod symud y sach o un man i'r llall.	**Padiau penlinio** – mae casglu mes yn golygu treulio amser ar eich cwrcwd neu'n penlinio. Efallai byddai'n syniad mynd â phad penlinio gyda chi i arbed ar eich pengliniau, neu fagiau plastig, yn enwedig os yw'r tir yn wlyb.
Canllaw i adnabod Derwen mes coesynnog yn erbyn derwen mes digoes - gwnewch yn siŵr eich bod wedi adnabod y goeden/coed yr ydych chi'n casglu ohonynt yn gywir.	**Lluniaeth** - er bod casglu mes yn ddiddorol ac yn werth chweil, efallai y bydd angen diod boeth a byrbryd i gynnal brwdfrydedd eich casglwyr mes.
Dillad cynnes ac esgidiau addas - gall dwylo neu draed oer neu wlyb arwain at golli diddordeb a chwymp yn y cyfraddau casglu mes. I sicrhau bod eich grŵp yn frwd a cynhyrchiol, gofynnwch iddynt wisgo'n gynnes gyda digon o haenau.	
Pecyn cymorth cyntaf – rhag ofn bod unrhyw un yn cael anaf wrth chwilota am fes.	
Sachau a labeli sy'n addas i gasglu mes – cysylltwch â CNC i dderbyn y rhain am ddim.	
Weipiau neu hylif diheintio dwylo – er mwyn glanhau'r dwylo ar ôl i'r casglu orffen, i osgoi lledaenu germau.	
Camera - tynnwch ddigon o luniau o'ch grŵp wrth eu gwaith er mwyn codi ymwybyddiaeth o'ch grŵp neu'r nod codi arian. Cofiwch rannu eich profiad a thagiwch eich lluniau trwy **#MiriMes** os oes gennych ganiatâd i dynnu lluniau a'u rhannu	
Asesiad Risg – sicrhewch fod gennych gopi o'ch asesiad risg gyda chi rhag ofn y bydd amodau'n newid ar y diwrnod.	
Gweithgareddau addysg – peidiwch ag anghofio argraffu a mynd â'r gweithgareddau a awgrymir gennym ar gyfer gwasgaru hadau ac egino hadau gyda chi.	
Cynorthwywyr – mwya'r gweithwyr, lleia'r dasg. Gofynnwch i gynifer o bobl â phosibl eich helpu chi.	

Rheolau casglu mes:

Rhaid	Paid
Casglu rhai mawr – Po fwyaf yw'r fesen, po fwyaf yw'r gronfa fwyd ynddi, felly bydd yn tyfu'n goeden fwy o faint, yn gynt.	**Dim cnoi na bwyta** – Os oes unrhyw dystiolaeth bod bywyd gwyllt wedi cnoi'r mes, neu os oes tyllau ynddynt, peidiwch â'u casglu.
Gwirio ydyn nhw'n iawn – Po hiraf y bydd y mes yn treulio ar y ddaear, gyflymaf y maen nhw'n dirywio. Ffordd sydyn a syml i wirio a ydyn nhw'n iawn yw eu rhoi mewn bwced o ddŵr. Os ydyn nhw'n arnofio – wnân nhw ddim mo'r tro.	**Dim casglu mes gwyrdd** – Mae'n rhaid diystyru'r mes cyntaf sy'n cwympo gan nad ydyn nhw wedi aeddfedu'n llawn – yn aml, bydd y rhain yn cwympo gyda gwyntoedd cyntaf yr hydref. Bydd y prif gwymp yn digwydd tua phythefnos yn ddiweddarach a bydd y mes yn frown eu lliw.
Sylwi ar bellter - Os oes cymysgedd o goed mes coesynnog a choed mes digoes ar y safle, rhaid bod pellter o 20 metr rhwng bob coeden er mwyn gallu casglu'r mes sydd wedi cwympo.	**Dim gorlenwi** – er mwyn lleihau'r perygl y bydd sachau'n rhwygo, peidiwch â llenwi eich sachau'n llawnach na thri chwarter, os gwelwch yn dda.
Anadlu – Mae mes yn pydru'n gyflym. Ar ôl eu casglu, rhaid storio mes yn y sachau y byddwn ni wedi'u hanfon atoch, sy'n gallu anadlu.	**Dim casglu'r cyfan, gadewch rai ar gyfer bywyd gwyllt** – Bydd gwiwerod, sgrechod y coed, llygod, ceirw a moch daear yn bwyta mes. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael rhai ar y ddaear fel bwyd i helpu'r anifeiliaid hyn oroesi misoedd caled y gaeaf. Mae'n bosibl y bydd rhai mes nad ydynt yn cael eu casglu neu eu bwyta gan fywyd gwyllt yn tyfu i ddod yn eginblanhigion.
Trin y mes â gofal – Mae'r rhan fwyaf o fes yn ymddangos yn bethau difywyd, ond cofiwch eu bod yn organebau byw. Er mwyn iddynt wireddu eu potensial i egino, tyfu a datblygu i fod yn blanhigion iach, mae'n rhaid eu trin gyda gofal. Bydd eu cam-drin yn niweidio neu'n lladd y mes.	**Dim cymysgu** - Os ydych chi'n casglu mes coesynnog a mes digoes, gwnewch yn siŵr fod y ddau fath yn cael eu cadw ar wahân h.y. rhaid i bob sach fod naill ai'n llawn o 100% o fes coesynnog (sachau coch neu oren) neu 100% o fes di-goes (sachau gwyrdd). Weithiau, oherwydd galw prynwyr gyda'r feithrinfa, dim ond un rhywogaeth o fes y gofynnwn amdani; edrychwch ar ein tudalen we Miri Mes i gael mwy o wybodaeth. **Ni fyddwn ni'n derbyn sachau sy'n cynnwys cymysgedd o rywogaethau o fes.**
Gofalu am fioddiogelwch – Mae pawb sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, sy'n gweithio yno neu sy'n ymweld, yn gallu lleihau perygl lledu plâu a chlefydau drwy gofio hyn: '*cadwch yn lân - peidiwch â rhoi rhwydd hynt i blâu a chlefydau*.' Am wybodaeth bellach a chyngor, edrychwch ar ein tudalen we bioddiogelwch.	**Peidiwch â chasglu oddi ar goeden sy'n dangos arwyddion o afiechyd** – nid ydym eisiau lledaenu clefyd coed yn anfwriadol drwy dyfu coed ifanc o fes sy'n dod o goed heintiedig. Dyma arwyddion cyffredin sy'n dangos nad yw coeden yn iach: pryfed i'w gweld ar y goeden, gwahaniaethau ym maint, lliw neu siâp y ddeilen, tyllau yn y rhisgl, canghennau neu'r dail. Mae arwyddion eraill yn cynnwys tyfiannau ar ganghennau, nodd yn diferu a/neu wywo. Gwiriwch gyflwr cyffredinol eich coed cyn dechrau casglu.

Casglu dail o'ch coeden – bydd angen i chi gynnwys llond llaw o ddail a chwpanau mes o'ch coeden gyda'ch casgliad er mwyn i ni allu cadarnhau beth yw rhywogaeth y goeden. Mwy o wybodaeth isod.	

Cam 4: Storio a gofalu am eich mes

Mae mes yn gallu pydru'n gyflym iawn. Mae'u lefel lleithder yn uchel iawn, a gellir eu lladd wrth eu gor-sychu. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau i fyw, a fyddech cystal â'u:

- **Trafod yn ofalus** - Dylid eu trin â gofal, fel pe baen nhw'n llestri gwerthfawr; bydd eu cam-drin yn eu niweidio neu eu lladd.
- **Cadw'r mes yn oer** – Storiwch eich mes ar dymheredd isel (2ºC - 5ºC) er mwyn arafu cyfradd dirywiad y mes a chyfyngu ar dwf ffwngaidd.
- **Lleithder uchel** – Mae'n well cael ystafell â lleithder uchel i leihau'r posibilrwydd y bydd y mes yn gor-sychu. Dylech eu cadw draw o wres dan-do a gwres artiffisial, neu byddan nhw'n dechrau egino, a bydd y broses o or-sychu'n cyflymu.
- **Cadwch lygad am lygod** – Gwnewch yn siŵr na all llygod ddod i fan storio'r mes.
- **Ac anadlwch** – gwnewch yn siŵr bod y mes yn cael eu cadw yn y sachau sy'n gallu anadlu a gawsoch oddi wrthym ni, ac nid mewn cynwysyddion â sêl na bagiau plastig. Mae mes yn bethau byw, ac mae angen iddyn nhw allu anadlu. Trowch y sachau mes yn ddyddiol i sicrhau eu bod yn cael eu hawyru.

Cam 5: Paratoi eich mes ar gyfer eu hanfon atom ni

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gofrestru byddwn ni'n anfon atoch chi:

- Sachau casglu (gwyrdd ar gyfer mes digoes, oren neu goch ar gyfer mes coesynnog)
- Labeli sy'n gwrthsefyll dŵr
- Bagiau bwyd
- Clymau i gau'r sachau

Sachau Casglu

Mae pob mesen yn werthfawr, dydyn ni ddim eisiau colli unrhyw rai ar ôl i chi weithio mor galed i'w casglu. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi lenwi eich sachau nes eu bod yn dri chwarter llawn yn unig; byddai'n well gennym ni gofrestru tair sach yn hytrach na cholli mes sy'n disgyn o fag gorlawn sydd wedi ffrwydro.

Labeli

Bydd angen llenwi **dau** label sy'n gwrthsefyll dŵr, gan ddefnyddio inc parhaol, ar gyfer **pob** sach o fes, gan nodi:

- Enw eich lleoliad mewn llythrennau bras
- Cyfeirnod grid y lleoliad casglu
- Rhywogaeth y fesen: SOK (derwen di-goes) neu POK (derwen coesynnog)
- Sawl sach sy'n cael ei hanfon? e.e. 1 o 3.

Dylid rhoi un label y tu mewn i'r sach a chlymu'r llall gydag un o'r clymau a ddarperir ar du allan y sach, rhag ofn i un fynd ar goll.

Bagiau bwyd

Er mwyn inni allu cadarnhau rhywogaeth eich mes, cofiwch gynnwys sampl o ddail / cwpanau mes gan gynnwys unrhyw goesyn yn y bag bwyd a ddarparwyd. Gwnewch yn siŵr fod y bag bwyd yn cael ei roi tu mewn, ar ben sach wedi'i lenwi a mes. Bydd staff o'r feithrinfa goed yn cadarnhau rhywogaeth y dderwen drwy wirio'r sampl a ddarparwyd yn y bagiau bwyd.

Nodwch os gwelwch yn dda na fyddwn ni'n derbyn sachau o fes sy'n cynnwys rhywogaethau cymysg, am na ellir mo'u cofrestru yn unol â Chanllawiau Deunyddiau Atgynhyrchu Coedwigoedd, ac, o ganlyniad, na ellir mo'u plannu.

Cyflenwi eich mes i ni

Ar ôl i chi orffen casglu, **archebwch apwyntiad i ddanfon eich mes atom**, i'r swyddfa a ddewiswydgennych ar eich ffurflen gofrestru, ar y cyfle cyntaf os gwelwch yn dda. Po gynted y byddwn ni'n eu derbyn,gynted y gallwn ni fynd â nhw i'r feithrinfa, ac i'r ddaear.

Rhaid cyflenwi'r mes rhwng **13.9.21 – 25.10.22**.

Ar ôl i chi fynd â'ch mes i ben eu taith, a fyddech cystal ag anfon e-bost atom at addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk i gadarnhau bod eich mes wedi cael eu cyflenwi. Yna byddwn ni'n trefnu o fynd â nhw i'r 'Pencadlys Mes'.

Cam 6: Derbyn tâl am eich mes

Cyfradd talu

Er bod nifer yn bwysig, rydym ni hefyd eisiau sicrhau'r ansawdd gorau. Bydd gan fes o'r ansawdd gorau, sydd wedi cael eu dethol yn ofalus a derbyn pob gofal, well cyfle o dyfu'n goed ifanc.

Os na ellir adnabod eich mes, os oes ddogfennaeth/labeli ar goll neu os yw'r mes o safon sal bydd yn rhaid i'r feithrinfa goed buddsoddi amser ac adnoddau ychwanegol. Er mwyn annog grwpiau addysg i gymryd amser, gofal ac ymdrech i ddewis y mes o'r ansawdd gorau ac i becynnu a labelu eu casgliad yn ofalus, bydd cyfradd amrywiol yn cael ei thalu (gweler y *Meini Prawf Graddio Mes* ar wefan Miri Mes).

Bydd y feithrinfa goed sy'n plannu a thyfu eich mes yn goed ifanc ar ran CNC yn asesu ansawdd eich mes ac yn penderfynu pa gyfradd sy'n addas i'w dalu ar gyfer eich mes chi. Manylir ar y cyfraddau talu ar wefan Miri Mes.

Gwobr Mesen Aur

Er mwyn cydnabod gwaith da, rhoddir 'Mesen Aur' i un grŵp addysgol i gydnabod eu bod wedi cymryd eu hamser a gofal i gasglu mes o'r safon uchaf.

Gwobr Mesen Digidol

Bydd dysgwyr yn cael eu gwahodd i gadw flog amgylcheddol am eu taith Miri Mes. Bydd pa bynnag leoliad addysg sydd wedi cynhyrchu'r flog amgylcheddol gorau yn ein barn ni yn ennill 'Gwobr Mesen Ddigidol' a bydd eu flog amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio i farchnata ymgyrch Miri Mes y flwyddyn olynol. Gweler ein Cynllun Gweithgaredd am fwy o wybodaeth.

I gael rhagor o wybodaeth

Cadwch lygad ar ein gwefan Miri Mes am ragor o wybodaeth ac adnoddau.

Cysylltu â ni:

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

- Trydar: @NatResWales @_OLW_
- Facebook: Dysgu Yn Yr Awyr Agored/Outdoor Learning Wales (grŵp caeedig)

#MiriMes

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk **0300 065 3000**